



Un Llais Cymru
One Voice Wales

Cynghorau Cymuned & Thref
Canllawiau Digidol

Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Ionawr 2025

Cyflwyniad.....	3
Dulliau Digidol ar gyfer Ymgysylltu Cymunedol yng Nghymru	3
Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol.....	3
Arolygon a Phleidleisiau Ar-lein.....	3
Neuaddau Tref Rhithiol a Gweminarau.....	3
Cylchlythyron Ebost.....	4
Hysbysfyrddau Digidol	4
Aphiau Cymunedol	4
Trosolwg o Gyfryngau Cymdeithasol	4
Diffiniad o Gyfryngau Cymdeithasol.....	4
Mathau o Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol.....	4
Rôl Cyfryngau Cymdeithasol mewn Cyfathrebu Modern	5
Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol Allweddol – 2024.....	5
Facebook: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr.....	5
LinkedIn: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr	5
Instagram: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr	5
YouTube: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr	6
TikTok: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr.....	6
X (Twitter): Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr	6
Cystadleuwyr i X	6
Cefnogi Ymgysylltu Cymunedol gyda Chyfryngau Cymdeithasol	7
Strategaethau ar gyfer Ymgysylltu Effeithiol ar Gyfryngau Cymdeithasol.....	7
Awgrymiadau Ymarferol ar gyfer Creu Cynnwys a Rhyngweithio	7
Mesur Ymgysylltu a Metreg Llwyddiant.....	7
Risgiau a heriau wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Ymgysylltu Cymunedol.....	8
Pryderon am Breifatrwydd a Diogelu Data	8
Rheoli Camwybodaeth ac Adborth Negyddol.....	8
Cydbwysu Ymgysylltu gyda Dyrannu Adnoddau.....	8
Hanes Fersiynau	9

Cyflwyniad

Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd newydd i Gyngorau Cymuned a Thref ymgysylltu gyda'u cymunedau, gan gynnwys cyrhaeddiad estynedig, gwell cyfathrebu, a mwy o dryloywder. Mae'r ddogfen hon yn edrych ar strategaethau a llwyfannau, all helpu cyngorau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i adeiladu perthnasoedd cryfach gyda'u cymunedau.

Cyn y rhyngwrwyd, roedd ymgysylltu cymunedol yn dibynnu'n bennaf ar dulliau fel cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac arolygon drwy'r post. Roedd y dulliau traddodiadol hyn yn cynnig cysylltiad uniongyrchol ond roeddent yn cael eu cyfyngu'n aml gan ddaearyddiaeth ac roedd llai o bobl yn cymryd rhan.

Ar y llaw arall, mae dulliau digidol, a chyfryngau cymdeithasol yn enwedig, wedi trawsffurfio ymgysylltu cymunedol trwy gyrraedd mwy o bobl, cyfathrebu unionsyth, a mwy o dryloywder. Mae llwyfannau fel Facebook yn galluogi cyngorau i rannu diweddariadau, casglu adborth, a rhyngweithio gyda phobl mewn amser go iawn, gan annog deialog fwy cynhwysol a deinamig. Mae'r offerynnau digidol hyn yn creu cyfleoedd ymgysylltu gyda phoblogaeth fwy a mwy amrywiol, ac yn mynd i'r afael â chyfyngiadau dulliau traddodiadol.

Dulliau Digidol ar gyfer Ymgysylltu Cymunedol yng Nghymru

Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol

Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn bennaf felly Facebook, yn cael eu defnyddio'n helaeth yng Nghymru i ymgysylltu â chymunedau. Mae'r llwyfannau hyn yn galluogi cyngorau a sefydliadau eraill i rannu diweddariadau, casglu adborth, a rhyngweithio gyda phobl mewn amser go iawn. Trwy bostio diweddariadau rheolaidd, creu tudalennau cymunedol arbennig neu drefnu sesiynau C&A by hyd yn oed, gall cyngorau feithrin ymdeimlad o gymuned a rhoi gwybod i bobl am faterion a digwyddiadau lleol.

Arolygon a Phleidleisiau Ar-lein

Mae arolygon a phleidleisiau ar-lein yn offerynnau effeithiol ar gyfer mesur barn y cyhoedd a chasglu adborth gwerthfawr. Trwy ddefnyddio llwyfannau fel SurveyMonkey neu Google Forms, gall cyngorau gyrraedd cynulleidfia eang yn rhwydd a chasglu ymateb ar faterion gwahanol. Yna gellir defnyddio'r data hwn i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau'r gymuned.

Neuaddau Tref Rhithiol a Gweminarau

Mae rhith gyfarfodydd, cyfarfodydd cymunedol a gweminarau yn cynnig ffordd gyfleus i bobl leol gymryd rhan mewn trafodaethau cymunedol a phrosesau gwneud penderfyniadau heb orfod mynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae llwyfannau fel Zoom neu Microsoft Teams yn galluogi cyngorau i gynnal sesiynau rhyngweithiol lle y gall pobl ofyn cwestiynau, lleisio pryderon, a chynnig mewnbwn

ar faterion pwysig. Mae trefn o'r fath nid yn unig yn cynyddu hygyrchedd ond mae hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran trefnu a chymryd rhan.

Cylchlythyron Eboost

Mae cylchlythyron e-boost yn ffordd syml ond effeithiol o roi gwybod i'r gymuned am weithgarwch y cyngor, digwyddiadau a drefnwyd, a chyhoeddiadau pwysig. Trwy gynhyrchu cylchlythyr rheolaidd, gall cynghorau sicrhau bod eu trigolion yn cael diweddariadau prydlon ac yn teimlo gwell cysylltiad gyda'u llywodraeth leol. Mae angen i gynghorau reoli unrhyw restr postio yn unol â'u polisi diogelu data, a rhoi sylw i ofynion deddfwriaeth berthnasol. (Deddf Diogelu Data 2018).

Hysbysfyrddau Digidol

Gall hysbysfyrddau digidol fod yn fyrddau ffisegol mewn mannau amlwg mewn tref neu gymuned neu ar wefan cyngor. Gallant fod yn lleoliad canolog ar gyfer gwybodaeth gymunedol bwysig. Gall yr hysbysfyrddau hyn gynnwys diweddariadau ar gyfarfodydd y cyngor, ymgynghoriadau cyhoeddus, digwyddiadau lleol, a chyhoeddiadau pwysig eraill. Trwy ddarparu'r wybodaeth hon mewn ffordd hwylus, gall cynghorau ofalu fod pobl leol yn cael gwybod am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf.

Apiau Cymunedol

Mae apiau cymunedol yn cael eu cynllunio'n benodol ar gyfer ymgysylltu lleol, darparu llwyfan i drigolion gysylltu â'u cymdogion, rhoi gwybod am broblemau, a chael gwybod am ddiweddariadau a mentrau lleol. Gall yr apiau hyn helpu adeiladu ymdeimlad cryfach o gymuned trwy hwyluso cyfathrebu a chydweithio ymhlith trigolion ac awdurdodau lleol.

Trwy ddefnyddio'r dulliau digidol hyn, gall cynghorau yng Nghymru gryfhau eu hymdrechion i ymgysylltu â'u cymunedau, adeiladu perthnasoedd cryfach gyda phobl leol, a chreu llywodraethiant lleol mwy ymatebol ac effeithiol.

Trosolwg o Gyfryngau Cymdeithasol

Diffiniad o Gyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn cyfeirio at lwyfannau ar-lein sy'n galluogi defnyddwyr i rannu, creu, a chyfnewid gwybodaeth trwy eiriau, delweddau, a fideo. Ymhlith yr enghreifftiau mwyaf amlwg mae Facebook, X (Twitter gynt), Instagram, LinkedIn, ac YouTube.

Mathau o Lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol

Rhwydweithiau Cymdeithasol: Llwyfannau a gynlluniwyd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac adeiladu perthnasoedd (e.e., Facebook, LinkedIn). Mae'r rhain yn ddelfrydol ar gyfer ymgysylltu cymunedol, adeiladu cysylltiadau, a rhannu cynnwys.

Microblogiau: Llwyfannau a gynlluniwyd ar gyfer cynnwys ffurf-byr, fel arfer rhwng 280 a 500 o nodau, ac efallai un darn o gyfryngau megis ffotograff neu glip fideo byr. Mae'r rhain yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu diweddariadau, newyddion a gwybodaeth amser go iawn. Y llwyfan mwyaf poblogaidd ar gyfer micro-blogio yw X ond yn ystod 2024 daeth nifer o lwyfannau eraill megis Threads, Blue Sky a Mastodon yn amlwg.

Gwefannau Rhannu Cyfryngau: Llwyfannau a gynlluniwyd ar gyfer rhannu cynnwys aml-gyfryngol, megis delweddau, fideos, a recordiadau sain (e.e., YouTube, Instagram). Mae'r rhain yn berffaith ar gyfer adrodd storïau gweledol, adeiladu brand, ac ymgysylltu.

Apiau Negeseuo: Llwyfannau a gynlluniwyd ar gyfer cyfathrebu preifat rhwng unigolion neu grwpiau (e.e., WhatsApp). Mae'r rhain yn cynnig ymgysylltiad personol, gwasanaethu cwsmer, ac adeiladu cymunedau.

Rôl Cyfryngau Cymdeithasol mewn Cyfathrebu Modern

Cyfleoedd i Ymgysylltu: Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd newydd i ymgysylltu, gan roi llwyfan i sefydliadau ac unigolion ryngweithio'n rheolaidd gyda'u dilynwyr.

Adeiladu Ymwybyddiaeth o Frand: Gall cyfryngau cymdeithasol fod yn offeryn grymus ar gyfer adeiladu ymwybyddiaeth o frand, a galluogi sefydliadau i gyrraedd cynulleidfa ehangach a hyrwyddo eu cynhyrchion a'u gwasanaethau.

Gwella Cysylltiadau â Chwsmeriaid: Gellir defnyddio cyfryngau cymdeithasol i wella cysylltiadau â chwsmeriaid trwy alluogi sefydliadau i ymateb yn gyflym ac effeithiol i ymholiadau a chwynion gan gwsmeriaid.

Llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol Allweddol – 2024

Facebook: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr

Hanes: Sefydlwyd Facebook yn 2004 gan Mark Zuckerberg ac fe dyfodd i fod yn un o'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, gyda mwy na 2.8 biliwn o ddefnyddwyr gweithredol bob mis.

Cost: Mae Facebook yn rhad ac am ddim i unigolion, ond gall sefydliadau dalu am hysbysebion ac offerynnau hyrwyddo eraill er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Demograffeg Defnyddwyr: Mae gan Facebook gorff amrywiol o ddefnyddwyr, yn cynnwys defnyddwyr o bob grŵp oed a demograffeg. Mae'n llwyfan poblogaidd ymhlith busnesau er mwyn cyrraedd eu cynulleidfa darged trwy hysbysebu.

LinkedIn: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr

Hanes: Sefydlwyd LinkedIn yn 2002 ac fe dyfodd yn llwyfan rhwydweithio proffesiynol poblogaidd a ddefnyddir gan filiynau ledled y byd.

Cost: Mae LinkedIn yn rhad ac am ddim ar gyfer rhwydweithio sylfaenol a chwilio am swyddi, ond gall sefydliadau dalu am hysbysebion ac offerynnau hyrwyddo eraill.

Demograffeg Defnyddwyr: Mae gan LinkedIn gorff amrywiol o ddefnyddwyr, yn cynnwys cyfran uwch o weithwyr proffesiynol ac o fyd busnes.

Instagram: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr

Hanes: Sefydlwyd Instagram yn 2010 gan Kevin Systrom a Mike Krieger ac fe'i prynwyd yn ddiweddarach gan Facebook (Meta nawr) yn 2012. Fe ddechreuodd yn ap rhannu lluniau ond esblygodd yn llwyfan aml-gyfryngol.

Cost: Mae Instagram yn rhad ac am ddim i unigolion a busnesau, ond gall sefydliadau dalu am hysbysebion ac offerynnau hyrwyddo eraill.

Demograffeg Defnyddwyr: Mae defnyddwyr Instagram yn tueddu bod yn iau, yn cynnwys cyfran uwch o ddefnyddwyr benywaidd a defnyddwyr trefol.

YouTube: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr

Hanes: Sefydlwyd YouTube yn 2005 a daeth i fod y llwyfan rhannu fideos mwyaf yn y byd, ac mae ganddo biliynau o ddefnyddwyr ac mae miliynau o oriau o gynnwys fideo yn cael ei lwytho bob dydd.

Cost: Mae YouTube yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, ond gall sefydliadau dalu am hysbysebion ac offerynnau hyrwyddo eraill er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Demograffeg Defnyddwyr: Mae gan YouTube gorff amrywiol o ddefnyddwyr, yn cynnwys defnyddwyr o bob grŵp oed a demograffeg.

TikTok: Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr

Hanes: Lanswyd TikTok, llwyfan fideo ffurf-byr, yn 2016 gan gwmni Tsieineaidd ByteDance. Daeth yn boblogaidd yn gyflym iawn ac mae'n un o'r apiau sy'n cael ei lawr lwytho fwyaf ledled y byd.

Cost: Mae TikTok yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, ond gall busnesau fuddsoddi mewn cynlluniau hysbysebu i ymestyn eu cyrhaeddiad a'u hymgysylltu.

Demograffeg Defnyddwyr: Mae defnyddwyr TikTok yn tueddu bod yn iau, ac mae cyfran arwyddocaol o'r defnyddwyr yn ardegwyr ac oedolion ifanc. Mae ei gynnwys yn cael ei lywio'n aml gan dueddiadau, heriau, a fideos creadigol byr.

X (Twitter): Hanes, Cost, a Demograffeg Defnyddwyr

Hanes: Mae X yn llwyfan microblogio a sefydlwyd yn 2006 yn boblogaidd ar gyfer newyddion, adloniant, a thrafod cyhoeddus. Prynwyd X yn 2022 gan Elon Musk ac fe'i gwnaed yn breifat yn rhan o X Holding Corp.

Cost: Mae Twitter yn rhad ac am ddim i unigolion ac mae haen am dâl yn cynnig gwirhad trwy arddangos marc "tic" glas. Gall sefydliadau dalu am hysbysebion ac offerynnau hyrwyddo eraill.

Demograffeg Defnyddwyr: Mae gan X gorff amrywiol o ddefnyddwyr a chyfran uwch o oedolion ifanc a defnyddwyr trefol.

Cystadleuwyr i X

Ar ddiwedd 2024 daeth nifer o lwyfannau sy'n cystadlu ag X yn fwy poblogaidd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd pryderon am gyfeiriad X o dan berchnogaeth Elon Musk. Mae'n aneglur o hyd a fydd unrhyw un o'r llwyfannau newydd hyn fel Threads, Blue Sky neu Mastodon yn sefydlu'u hunain yn ddewisiadau amgen realistig i Twitter ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus. Efallai yr hoffai cynghorau adolygu'r sefyllfa ar y pryd cyn buddsoddi adnoddau i ddefnyddio X neu lwyfan cystadleuol.

Cefnogi Ymgysylltu Cymunedol gyda Chyfyngau Cymdeithasol

Strategaethau ar gyfer Ymgysylltu Effeithiol ar Gyfyngau Cymdeithasol

- Diffiniwch eich Nodau: Diffiniwch eich nodau ac amcanion ar gyfer ymgysylltu ar gyfyngau cymdeithasol yn glir, megis cynyddu ymwybyddiaeth neu hybu ymgysylltu cymunedol.
- Targedwch eich Cynulleidfa: Penderfynwch ar eich cynulleidfa darged a theilwrrwch eich cynnwys cyfyngau cymdeithasol i'w diddordebau, anghenion a hoffterau.
- Dewiswch y Llwyfannau Iawn: Dewiswch y llwyfannau cyfyngau cymdeithasol sydd fwyaf perthnasol i'r gynulleidfa darged ac aliniwch nhw gyda nodau'r sefydliad.
- Creu Strategaeth Gynnwys: Datblygwch strategaeth gynnwys gyda chymysgedd o gynnwys hyrwyddo, cyflwyno gwybodaeth a diddori.
- Sefydlu Canllawiau ar gyfer Rhyngweithio ac Ymateb: Gosodwch ganllawiau ar gyfer rhyngweithio ac ymateb, gan gynnwys amserau ymateb, naws, a sut i ddelio ag adborth cwsmeriaid.
- Cefnogwch staff os yw problemau yn codi: Mae cyfyngau cymdeithasol yn gallu cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a thramgwyddus gan ddefnyddwyr. Gallai hyn beri gofid i staff sy'n rheoli llwyfannau cyfyngau cymdeithasol ar ran cyngor. Dylid rhoi cefnogaeth ac arweiniad i staff ar sut i reoli unrhyw faterion sy'n codi.

Awgrymiadau Ymarferol ar gyfer Creu Cynnwys a Rhyngweithio

Naws, Fformat, ac Amseru: Dylai cynghorau ystyried pa naws maen nhw am ei defnyddio ar gyfyngau cymdeithasol fel rhan o'r "brandio" cyffredinol. Mae cynghorau yn gyrrff cyhoeddus ac mae angen iddynt sicrhau bod eu deunydd ar gyfyngau cymdeithasol yn ffeithiol gywir a phroffesiynol ei naws, ond bydd yr ymgysylltu'n fwy tebygol o lwyddo os yw'r cynnyrch yn cael ei gadw'n syml a darllenadwy. Dylid defnyddio fformat sy'n gweddu i'r llwyfan a'r gynulleidfa. Dylid defnyddio'r cyfnodau amser pan mae'r gynulleidfa ar ei mwyaf gweithredol.

Amlgyfyngau a Hashnodau: Gall ychwanegu amlgyfyngau fel delweddau, fideos, a ffeithluniau gynyddu ffigyrau ymgysylltu. Gall hashnodau helpu negeseuon gyrraedd cynulleidfaedd newydd.

Rhyngweithio â'r Gynulleidfa: Gall rhyngweithio gyda'r gynulleidfa trwy ymateb i sylwadau a chwestiynau gynyddu ffigyrau ymgysylltu a helpu adeiladu perthnasoedd.

Mesur Ymgysylltu a Metreg Llwyddiant

Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Traciwch ddilynwyr, hoffterau, pethau a rannwyd, sylwadau, a dangosyddion perfformiad allweddol eraill i fesur ymgysylltiad a llwyddiant.

Offerynnau Dadansoddeg: Defnyddiwch offerynnau dadansoddeg i fonitro perfformiad ar gyfyngau cymdeithasol ac addaswch eich strategaethau yn unol â hynny.

Risgiau a heriau wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Ymgysylltu Cymunedol

Pryderon am Breifatrwydd a Diogelu Data

Risgiau preifatrwydd: Gall cyfryngau cymdeithasol greu risgiau preifatrwydd, gan gynnwys defnydd anawdurdodedig o wybodaeth bersonol. Dylai fod gan gynghorau bolisi diogelu data ar waith a dylent ofalu fod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

Risgiau Diogeledd Data: Mewn rhai amgylchiadau gallai cyfryngau cymdeithasol greu risgiau diogeledd data, megis gweld data sensitif. Dylech feddwl yn ofalus cyn postio data ar gyfryngau cymdeithasol nad yw o reidrwydd yn y pau cyhoeddus. Dylid monitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gweithgarwch amheus a chymryd y camau priodol i ddiogelu data.

Rheoli Camwybodaeth ac Adborth Negyddol

Arwyddocâd Mynd i'r Afael ag Adborth Negyddol: Fel arfer mae Cynghorau Cymuned a Thref yn sefydliadau bychan iawn ac mae eu hadnoddau staff yn gyfyngedig ar gyfer gwasanaethu eu cymunedau lleol. Os nad ydych yn ymateb iddynt mae sylwadau neu adborth negyddol yn cael cryn effaith yn gyflym iawn. Mae'n hollbwysig sefydlu trefniadau clir ar gyfer rheoli adborth o'r fath ac unrhyw gamwybodaeth. Mae bod yn gorff bychan yn golygu y gall pob darn o adborth gael effaith arwyddocaol ar ganfyddiadau'r gymuned ohonoch.

Ymatebion Prydlon a Thryloyw: Mewn sefydliad bychan, mae'n hanfodol sicrhau bod ymatebion i adborth negyddol a chamwybodaeth yn brydlon a thryloyw er mwyn cynnal ymddiriedaeth. Gan fod adnoddau yn gyfyngedig, gallai hynny olygu rhoi blaenoriaeth i gyfathrebu a neilltuo cyfnod penodol bob dydd i roi sylw i bryderon a chywiro unrhyw wybodaeth ffug. Mae bod yn dryloyw yn eich ymatebion yn golygu bod yn onest am gamgymeriadau a dangos eich bod yn benderfynol o gywiro pethau, a gall hynny feithrin perthnasoedd cryfach gyda phobl leol.

Cydbwysu Ymgysylltu gyda Dyrannu Adnoddau

Ar gyfer sefydliad bach iawn, mae'n hollbwysig deall fod amser ac adnoddau yn gyfyngedig. Dylech flaenoriaethu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy'n eich galluogi i gyrraedd ac ymgysylltu â'r nifer fwyaf o bobl yn eich cynulleidfa leol. Canolbwyntiwch eich ymdrechion ar greu cynnyrch da yn hytrach na gwasgaru'ch hun yn ormodol ar draws nifer o sianeli. Symleiddiwch brosesau trwy ddefnyddio offerynnau trefnu a thempledi i arbed amser a chynnal cysondeb.

Dylech adolygu metrigau megis ffigyrau ymgysylltu, cynnydd yn nifer eich dilynwyr, a thraffig ar y wefan a gynhyrchwyd gan gyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd. Defnyddiwch y manylion hyn i fireinio eich strategaethau a phenderfynwch beth sy'n gweithio orau i'ch cynulleidfa. Byddwch yn hyblyg ac yn barod i addasu eich ffordd o weithio ar sail y data perfformiad. Bydd mynd ati'n rheolaidd i ail-ystyried a diwygio eich cynlluniau yn eich helpu i gadw'n berthnasol ac effeithiol er gwaethaf yr adnoddau cyfyngedig.

Hanes Fersiynau

	Dyddiad	Cyhoeddwr	Rheswm	Dyddiad Adolygu
V1	21/11/25	Justin Horrell	Fersiwn Gychwynnol	21/01/26



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Funded by
Welsh Government

.